OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1022 (Cy. 227)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr etc.) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 12.25 p.m. ar 22 Medi 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 4.00 p.m. ar 22 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *at 6.00 p.m. ar 22 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr etc.) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 22 Medi 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Mae hefyd yn esgus rhesymol i ddim mwy na 6 o bobl ymgynnull mewn (unrhyw) fangre o dan do pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—

(a) yn byw yn yr un fangre, a

(b) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd."

(3) Yn rheoliad 14C, yn y testun Cymraeg, yn y ddau le y mae'n digwydd (gan gynnwys yn y pennawd), yn lle "leol" rhodder "lleol".

(4) Yn Atodlen 4A—

(a) ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

(d) Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

(e) Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;

(f) Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.";

(b) yn union o flaen paragraff 7, hepgorer y pennawd ("RHAN 3") a'r is-bennawd oddi tano ("Cyfyngiadau nad ydynt yn gymwys ond mewn cysylltiad â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf");

(c) ym mharagraff 7—

(i) mewnosoder y canlynol fel pennawd—

*"Cyfyngiadau ar fangreoedd trwyddedig"*

(ii) yn is-baragraff (1), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf" rhodder "mewn ardal diogelu iechyd leol";

(iii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw is-baragraff (1)—

(a) yn caniatáu i'r fangre drwyddedig fod ar agor yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre;

(b) yn atal gwerthu neu gyflenwi alcohol gan westy neu lety arall fel rhan o wasanaeth ystafell.";

(iv) yn lle is-baragraff (3)(a) rhodder—

"(a) ystyr "mangre drwyddedig" yw tafarn, bar (gan gynnwys bar mewn clwb aelodau, gwesty neu lety arall), caffi neu fwyty (gan gynnwys bwyty neu ystafell fwyta mewn clwb aelodau, gwesty neu lety arall) y mae awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad ag ef neu â hi.".

(**2**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/984 (Cy. 221), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224) ac O.S. 2020/1011 (Cy. 225).

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 12.25 p.m. ar 22 Medi 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau —

(a) yn dynodi Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, a Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd, yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol;

(b) yn darparu mai un o'r gofynion yw bod rhaid i fangreoedd trwyddedig gau am 11 p.m. ym mhob ardal diogelu iechyd leol (gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili);

(c) yn darparu ei fod yn esgus rhesymol i bersonau sy'n byw mewn llety lle y rhennir cyfleusterau penodol ymgynnull o dan do fel pe baent yn un aelwyd (mae hyn yn cynnwys tai amlfeddiannaeth a llety myfyrwyr);

(d) yn gwneud mân ddiwygiadau i destun Cymraeg rheoliad 14C o'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.